CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **21 Ionawr 2025**

Teitl: **Polisi Chwythu'r Chwiban**

Pwrpas yr adroddiad: **Darparu adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2025**

Cefndir:
Yn flaenorol, roedd diweddariad am Bolisi Chwythu'r Chwiban wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor ar 4 Mawrth 2024 a'r tro diwethaf i Bolisi Chwythu'r Chwiban gael ei ddiweddaru cyn nawr oedd Ebrill 2023.

Y Sefyllfa Gyfredol:
Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban wedi'i adolygu ac mae gwelliannau wedi'u gwneud i sicrhau bod y polisi'n gyfredol.

Cyflwynwyd y prif newidiadau gerbron y Pwyllgor ac roeddent i'w gweld yn yr Atodiad ar ffurf newidiadau wedi'u tracio. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Rhagymadrodd
- Beth yw chwythu'r chwiban?
- Mwy o fanylion am sut i godi pryder
- Cyfrinachedd
- Datgelu gwybodaeth y tu allan i'r Cyngor
- Diweddariad i gysylltu â gwybodaeth ar gyfer personau a chyrff penodedig
- Sut y bydd y Cyngor yn ymateb
- Diogelwch

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am y modiwl hyfforddi a oedd yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor gynnwys yr adroddiad.

Argymhelliad y Pwyllgor:
Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r polisi diwygiedig.

Y Cynghorydd Wyn Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu